

Ysgol Sul

Bydd Ysgolion Sul Carmel a Bethlehem yn cael seibiant ar ôl heddiw dros y Nadolig. Bydd Ysgol Sul Carmel yn ail ddechrau y Sul cyntaf ar ôl i dymor yr ysgol gychwyn ym mis Ionawr. Cawn gyhoeddi eto ddyddiad ail ddechrau Ysgol Sul Bethlehem.

Cyhoeddiadau

CEFNYWAUN AC EBENESER

Dydd Sul, Rhagfyr 23: Gwasanaeth Nadolig yng ngofal ieuencid yr eglwys am 5.00 o'r gloch.

CAPEL COCH A NANT PADARN

Dydd Sul, Rhagfyr 23: Gwasanaeth Nadolig plant yr Ysgol Sul am 10.30 o'r gloch. Parti Nadolig y plant i ddilyn yr oedfa. Bydd Cyflwyniad Côr Cyfeillion Capel Coch a Chyfeillion yn Eglwys Sant Padarn am 7.00 o'r gloch.

Dydd Nadolig: Cymun am 10.00 o'r gloch.

CARMEL

Dydd Llun, Rhagfyr 17: Dosbarth Gwau am 2.00 o'r gloch.

Nos Wener, Rhagfyr 14: Bwffe Nadolig i griw Dwylo Prysus yn y festri am 6.30 o'r gloch.

Dydd Sul, Rhagfyr 23: Gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

BETHLEHEM

Dydd Sul, Rhagfyr 23: Gwasanaethir

Y mis nesaf - Deiniolen

Oedfaon yn Nhŷ Elidir

Rhagfyr 23

5.00 p.m. - Oedfa Nadolig yng ngofal yr ieuencid

Rhagfyr 30

Dim Oedfa

am 2.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

REHOBOTH

Dydd Sul, Rhagfyr 23: Ni fydd oedfa.



Y mis nesaf - Llanberis

Rhagfyr 23

10.30 a.m. - Oedfa Nadolig y Plant a pharti Nadolig y plant i ddilyn
7.00 p.m. - Cyngerdd Nadolig
Côr Capel Coch a Chyfeillion

Dydd Nadolig

10.00 a.m. - Oedfa Gymun y Nadolig

Rhagfyr 30

10.00 a.m. - Mr John Roberts

Gofalaeth Fro'r
Llechen Las

Rhif 779
16 Rhagfyr, 2018
Gronyn

Llawenhau

Un o themau amlwg Tymor yr Adfent yw llawenydd. Wrth gofio a dathlu dyfodiad Iesu i'r byd mae Cristnogion ar hyd yr oesoedd wedi llawenhau, a chawn ninnau ein hannog i wneud felly hefyd.

Yr oedd yna llawenhau wrth gwrs pan aned Iesu. Wedi'r cyfan a ddywedwyd wrthynt amdano cyn ei eni, byddai Mair a Joseff yn sicr wedi llawenhau ar ei enedigaeth ym Methlehem. Ac y mae hanes y bugeiliaid yn amlwg yn llawn o lawenydd. Fe soniodd yr angel wrthynt am 'newydd da o lawenydd mawr a ddaw i'r holl bobl'; fe ganodd y côr o angylion yn llawen; a brysiodd y bugeiliaid at grud Iesu cyn dychwelyd at eu gwaith a'u defaid yn moli Duw am y cyfan yr oeddent wedi ei weld a'i glywed. Byddai eu llawenydd yn amlwg i bawb a'u gwelai.

Mae llawenydd yn rhan annatod o ddathliadau'r tymor hwn i bawb o bobl Dduw. Gŵyl lawen yw'r Nadolig yn ei hanfod. Mae'r byd yn deall hynny, hyd yn oed os nad yw'n deall sail a natur y llawenydd hwnnw. Ar lawenydd, neu o leiaf ar fod yn hapus a chael hwyl y mae pwyslais mawr y byd wrth arwain at y Nadolig o hyd. Mae'r addurniadau a'r danteithion a'r anrhegion a'r partiön a'r adloniant a'r seibiant a'r cyfan ynghylch y dathliadau i fod i'n gwneud ni oll yn llawen. Ac mae'n amlwg fod yna hwyl a mwynhad a llawenydd i'w gael yn yr holl bethau hyn. Ydi, mae'r Nadolig yn Wyl o lawenydd ar lawer cyfrif, a gobeithio y bydd felly eleni.

Adfent 3

Ond nid pawb eleni, mwy na'r un Nadolig arall, a fydd yn profi'r hapusrwydd delfrydol a gyflwynir iddynt ac a ddisgwylir ganddynt. Nid pawb all fforddio'r anrhegion drud; nid pawb gaiff eistedd wrth fwrdd gorlawn o fwydydd blasus. Nid pawb fydd â tho uwch eu pen. Nid pawb fydd wedi eu hamgylchu â theulu a ffrindiau. Nid pawb fydd yn ddigon iach i fwynhau'r dathliadau. Bydd hapusrwydd a hwyl yn bethau anodd eu cael i lawer yn ein pentrefi a'n cymunedau ni, a hyd yn oed yn ein heglwysy hefyd gan fod pob math o amgylchiadau a phrofiadau'n medru eu lladrata a'u difa.

Ac eto, os bydd hwyl ar adegau'n brin neu allan o gyrraedd, y mae llawenydd y Nadolig yn aros. Oherwydd beth bynnag y profiadau a'r amgylchiadau, mae neges y Nadolig, am ddyfodiad Iesu yn aros. Y mae'r neges honno'n ein sicrhau fod Duw o'n plaid, a'i fod gyda ni bynnag a ddigwydd yn y byd ansicr a chreulon hwn. Yn ei Fab Iesu Grist, daeth Duw atom; a thrwy'r un Iesu atgyfodedig y mae'n parhau gyda ni yng nghanol ein byw bob dydd. Mae gyda ni pan fo popeth yn rhwydd ac o'n plaid; ond y mae gyda ni hefyd pan fo'r byd, yn ôl a welwn ni, yn llwyr yn ein herbyn. Nid peth hawdd yw egluro'r llawenydd dwfn sy'n eiddo i ni trwy ffydd yng Nghrist. Nid yw'n golygu ein bod yn neidio a dawnio, na hyd yn oed o reidrwydd ein bod yn teimlo'n llawen. Ond rywsut trwy'r cyfan, fe wyddom yn nyfnder ein calon fod popeth yn iawn.

Gofalaeth Fro'r Llechen Las

Cefnwaun (P), Deiniolen
Ebeneser (A), Deiniolen
Capel Coch (P), Llanberis
Nant Padarn A), Llanberis
Rehoboth (P), Nant Peris
Bethlehem (A), Talybont
Carmel (A), Llanllechid

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd
Ffôn: 01286 872390
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:
gronyn.wordpress.com
neu gronyn.org

Heddiw

Gwasanaethir yn Capel Coch am 10.00 o'r gloch gan y Gweinidog. Bydd yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch.

Gwasanaethir yn Neiniolen am 3.30 o'r gloch gan y Gweinidog.

Bydd yr Ysgol Sul yn Llanllechid am 10.30 o'r gloch pharti Nadolig y plant yn ei dilyn. Cynhelir Gwasanaeth Nadolig yr Ysgol Sul am 4.00 o'r gloch.

Bydd yr Ysgol Sul yn Nhalybont am 10.00 o'r gloch. Cynhelir Gwasanaeth Nadolig yr Ysgol Sul am 2.00 o'r gloch, a bydd paned i bawb yn y festri ar ôl yr oedfa.

Nid oes oedfa yn Rehoboth.

Cofion

Anfonwn ein cofion cynhesaf at ein holl aelodau sydd heb fod yn dda ar hyn o bryd, mewn ysbyty, cartref preswyl neu ar eu haelwydydd eu hunain.

Balm o Salm

'Dywedodd yr ARGLWYDD wrth fy Arglwydd: "Eistedd ar fy neheulaw, nes imi wneud dy elynion yn droedfainc i ti." Y mae'r ARGLWYDD yn estyn i ti o Seion deyrnwialen awdurdod; llywodraetha dithau yng nghanol dy elynion. Y mae dy bobl yn deyrngar iti ar ddydd dy eni mewn gogoniant sanctaidd o groth y wawr; fel gwllith y'th genhedlais di. Tyngodd yr ARGLWYDD, ac ni newidia, "Yr wyt yn offeiriad am byth yn ôl urdd Melchisedec." Y mae'r Arglwydd ar dy ddeheulaw yn dinistrio brenhinoedd yn nydd ei ddieter. Fe weinydda farn ymysg y cenedloedd, a'u llenwi â chelanedd; dinistria benaethiaid dros ddaear lydan. 'Fe yf o'r nant ar y ffordd, ac am hynny y cwyd ei ben' (Salm 110).



Yn yr un modd anfonwn gofion at holl deuluoedd yr eglwys sydd wedi colli an-wyliaid yn ystod r wythnosau diwethaf. Gweddwn dros ein gilydd ar yr adeg hon o'r flwyddyn sy'n medru bod yn galed ac yn llawn gofid a hiraeth i lawer.

'Dad Nefol; diochwn am y sicrwydd dy fod gyda ni beth bynnag y gwyntoedd cryfion sydd yn ein herbyn. Diolchwn am y sicrwydd y byddwn ddiogel bob amser yn dy gwmni a than dy gysgod a'th warchodaeth di.'

Ffair Nadolig

Diolch yn fawr iawn am bob cefnogaeth a gafwyd i'r Ffair Nadolig a gynhaliodd aelodau Capel Bethlehem, Talybont nos Fercher, Mawrth 29. Gwnaed elw o £636. Gwerthfawrogir bob cyfraniad. Diolch wrth gwrs i bawb a fu'n helpu ar y noson ac a fu'n paratoi'r gwahanol nwyddau ar gyfer y Ffair.

CIC

Aeth criw CIC Capel Coch i Ganolfan Glasfryn, Y Ffôr echnos ar gyfer eu gweithgaredd diwedd tymor, a chafwyd noson hwyliog o Fowlio 10. Cafwyd pryd o fwyd yn y caffî hefyd rhwng y ddwy gem o fowlio a gafodd pawb.

Diolch yn fawr i Susan am drefnu'r cyfan a diolch hefyd i Dafydd ac Andrew am fynd yno efo'r bobl ifanc. Roedd pawb yn falch o weld Andrew unwaith eto, ac mae mor braf gweld ei fod yntau mor falch o gadw cysylltiad â'r criw ers iddo adael ei swydd gyda Chynllun Efe bron i ddwy flynedd yn ôl. Daliwn i weddio drosto yn ei swydd bresennol yn Llŷn ac Eifionydd.

Cynllun Efe

Cynhaliwyd Pwyllgor Hybu a Chyfarfod Ymddiriedolwyr Cynllun Efe yng Nghapel Caethro ddydd Mercher.

Y Pwyllgor Hybu yw'r pwyllgor sydd gennym ar y cyd â Chapel Caersalem, Caernarfon a Scripture Union sy'n cydweithio â Chynllun Efe i gynnal ein gweithiwr plant, ieuencid a theuluoedd. Buom yn trafod y gwaith a wnaed ers mis Medi, a diolchwyd i Susan am yr holl waith yn yr ysgolion a'r eglwysi.

Yn ogystal â'r gwaith arferol gyda CIC, yr oedfaon teulu, gwasanaethau ysgol a'r Clwb Plant Bach cafwyd digwyddiadau arbennig iawn fel y Bore Hwyl, sesiynau Diolchgarwch i Ysgol Dolbadarn yn Capel Coch a'r Bore Crefft a Stori.

Carmel, Llanllechid

Gwasanaeth Bore Nadolig am 10.00 o'r gloch

Darlleniadau a Charolau

Diolch yn fawr am dy holl waith, Susan. Gofala gymryd seibiant haeddiannol o waith Efe dros wyliau'r Nadolig.

Bwrlwm Bethlehem

Yr adeg yma bob blwyddyn bydd aelodau'r Bwrlwm yng Nghapel Bethlehem Talybont yn gwagio'r cyfrif banc ac yn rhannu'r arian rhwng nifer o elusennau.

Eleni cyflwynwyd rhoddion o £90.00 yr un i'r elusennau canlynol: Ambiwlans Awyr Cymru, Tŷ Gobaith, Hosbis yn y Cartref Gwynedd a Môn, Cyfeillion Ysbyty Gwynedd a Hosbis Dewi Sant.

Diolch i bawb am gefnogi Bwrlwm ar hyd y flwyddyn. Caiff y cyfarfod nesaf ei gyhoeddi yn y flwyddyn newydd.

Cyfraniadau 2018 Capel Coch

Bydd llyfrau ariannol Capel Coch am 2018 yn cau ddydd Sul, Rhagfyr 30. Bydd unrhyw gyfraniad a dderbynnir wedi'r diwrnod hwnnw yn cael ei roi yng nghyfrifon 2019. Diolch yn fawr iawn am eich cydweithrediad.

Cyngerdd Nadolig

Bydd Cyngerdd Nadolig Côr Capel Coch a Chyfeilion yn Eglwys Sant Padarn, Llanberis am 7.00 o'r gloch, nos Sul, Rhagfyr 23. Mae tocynnau ar werth am £5 yn Siop Crib Goch, Llanberis (neu gellir talu wrth y drws ar y noson). Bydd yr elw at waith Cynllun Efe.